

Penallta House,
Tredomen Park,
Ystrad Mynach,
Hengoed CF82 7PG

Ty Penallta,
Parc Tredomen,
Ystrad Mynach,
Hengoed CF82 7PG



www.caerphilly.gov.uk
www.caerffili.gov.uk

Am unrhyw ymholiad yn ymwneud â'r agenda hwn cysylltwch â Sharon Hughes
(Rhif Ffôn: 01443 864281 E-bost: hughesj@caerphilly.gov.uk)

Dyddiad: Dydd Mercher, 22 Medi 2021

Annwyl Syr/Fadam,

Bydd cyfarfod o'r **Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau** yn cael ei gynnal trwy Microsoft Teams ar **Dydd Mawrth, 28ain Medi, 2021** am **5.30 pm** i ystyried materion a gynhwysir yn yr agenda canlynol. Gall cynghorwyr a'r cyhoedd sy'n dymuno siarad am unrhyw eitem wneud hynny drwy wneud cais i'r Cadeirydd. Mae croeso i chi ddefnyddio'r iaith Gymraeg yn y cyfarfod, a dylid rhoi cyfnod rhybudd o 3 diwrnod gwaith os ydych yn dymuno gwneud hynny.

Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei recordio a bydd ar gael i'w weld trwy wefan y Cyngor, ac eithrio trafodaethau sy'n ymwneud ag eitemau cyfrinachol neu eithriedig. Felly, bydd delweddau/sain yr unigolion sy'n bresennol ac/neu sy'n siarad yn ystod ar gael i'r cyhoedd trwy'r recordiad ar wefan y Cyngor yn www.caerffili.gov.uk

Yr eiddoch yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'CHarrhy'.

Christina Harrhy
PRIF WEITHREDWR

A G E N D A

Tudalennau

- 1 I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb
- 2 Datganiadau o Ddiddordeb.

Atgoffi'r Cynghorwyr a Swyddogion o'u cyfrifoldeb personol i ddatgan unrhyw fuddiannau personol a/neu niweidiol mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes ar yr agenda hwn yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a'r Cod Ymddygiad ar gyfer Cynghorwyr a Swyddogion.

A greener place Man gwyrddach



I gymeradwyo a llofnodi'r cofnodion canlynol:-

- | | | |
|---|---|---------|
| 3 | Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau a gynhaliwyd ar 25 Mai 2021. | 1 - 6 |
| 4 | Arbennig Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau a gynhaliwyd ar 23 Mehefin 2021. | 7 - 10 |
| 5 | Ystyried unrhyw fater a gyfeiriwyd at y Pwyllgor hwn yn unol â'r drefn galw i mewn. | |
| 6 | Rhaglen Waith y Dyfodol Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau. | 11 - 22 |
| 7 | I dderbyn ac ystyried yr adroddiadau* Cabinet canlynol:-

<ol style="list-style-type: none">1. Strategaeth TGCh arfaethedig – 9fed Mehefin 2021;2. Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2020-2021 – 9fed Mehefin 2021;3. Cynllun Gwirfoddoli i Weithwyr – 9fed Mehefin 2021;4. Aseiad Cynaliadwyedd Ariannol Swyddfa Archwilio Cymru - Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili – 23ain Mehefin 2021;5. Alldro Cyfalaf Dros Dro 2020/21 – 23ain Mehefin 2021;6. Adolygiad O Ddarparu Llywodraethu Da: Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili – 23ain Mehefin 2021;7. Polisi Gwerth Cymdeithasol a Mabwysiadu'r Fframwaith Themâu, Canlyniadau a Mesurau8. Alldro Refeniw Dros Dro ar gyfer 2020/21 – 7fed Gorffennaf 2021;9. Cynllun Kickstart – 7fed Gorffennaf 2021;10. Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili - Cynigion ar gyfer Gwasgariad Lloches ac Adleoli Affganiaid – 7fed Gorffennaf 2021;11. Cronfa Ymrymuso'r Gymuned – 21ain Gorffennaf 2021;12. Fframwaith Strategol ar gyfer Adferiad – Cynnydd – 1af Medi 2021;13. Rheoli Risg Adeiladau a Gwasanaethau ar Lefel Rhybudd Sero – 1af Medi 2021;14. Darparu Cynllun Buddion a Chydnabod Staff – 15fed Medi 2021. | |

** Os oes aelod o'r Pwyllgor Craffu yn dymuno i unrhyw un o'r adroddiadau Cabinet uchod i gael eu dwyn ymlaen ar gyfer adolygiad yn y cyfarfod, cysylltwch â Sharon Hughes 01443 864281, erbyn 10.00 a.m. ar Ddydd Llun, 27ain Medi 2021.*

- | | | |
|---|--|---------|
| 8 | Derbyn Hysbysiad o Gynnig – Adolygiad o Gyfansoddiad y Cyngor a Phrotocol Aelodau. | 23 - 26 |
|---|--|---------|

I dderbyn ac ystyried yr adroddiadau Craffu canlynol:-

- | | | |
|----|--|-----------|
| 9 | Strategaeth Datblygu'r Gweithlu 2021-24. | 27 - 76 |
| 10 | Strategaeth Lles Gweithwyr 2020-24. | 77 - 132 |
| 11 | Aseiad Perfformiad y Gyfadran – Cymunedau – Adroddiad Diwedd Blwyddyn 2020/21. | 133 - 152 |

Cylchrediad:

Cynghorwyr M.A. Adams, Mrs E.M. Aldworth, C.J. Cuss, Mrs C. Forehead, Miss E. Forehead, L. Harding, G. Johnston, G. Kirby (Cadeirydd), C.P. Mann, B. Miles (Is Gadeirydd), R. Saralis, Mrs M.E. Sargent, G. Simmonds, J. Taylor a L.G. Whittle

A Swyddogion Priodol

SUT FYDDWN YN DEFNYDDIO EICH GWYBODAETH

Bydd yr unigolion hynny sy'n mynychu cyfarfodydd pwyllgor i siarad/roi tystiolaeth yn cael eu henwi yng nghofnodion y cyfarfod hynny, weithiau bydd hyn yn cynnwys eu man gweithio neu fusnes a'r barnau a fynegir. Bydd cofnodion o'r cyfarfod gan gynnwys manylion y siaradwyr ar gael i'r cyhoedd ar wefan y Cyngor ar www.caerffili.gov.uk. ac eithrio am drafodaethau sy'n ymwneud ag eitemau cyfrinachol neu eithriedig.

Mae gennych nifer o hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth, gan gynnwys yr hawl i gael mynediad at wybodaeth sydd gennym amdanoch a'r hawl i gwyno os ydych yn anhapus gyda'r modd y mae eich gwybodaeth yn cael ei brosesu.

Am wybodaeth bellach ar sut rydym yn prosesu eich gwybodaeth a'ch hawliau, ewch i'r Hysbysiad Preifatrwydd Cyfarfodydd Pwyllgor Llawn ar ein gwefan <http://www.caerffili.gov.uk/Pwyllgor/Preifatrwydd> neu cysylltwch â Gwasanaethau Cyfreithiol drwy e-bostio griffd2@caerffili.gov.uk neu ffoniwch 01443 863028.